

# PANEL YR AELODAU O RAN APELIADAU CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL.

Dydd Mercher, 16 Medi 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cyngorydd H.A.L. Evans (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**

G. Davies

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**

A. Evans, Rheolwr Gweithrediadau - Cludiant Teithwyr  
L. McFarlane, Swyddog Polisi a Datblygu Teithio Dysgwyr  
A. John, Cyfreithiwr Cynorthwyol  
S. Williams, Uwch Swyddog Trefniant Ysgolion  
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd  
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democraidd  
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democraidd  
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democraidd

**Rhith-Gyfarfod: 10.30 yb - 10.35 yb**

- 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**  
Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.
- 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL**  
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.
- 3. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, na fyddai'r eitem ganlynol yn cael ei chyhoeddi gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

- 4. I YSTYRIED APÊL GAN YMGEISYDD SC & CC YN ERBYN PENDERFYNIAD YR AWDURDOD SEF PEIDIO Â DARPARU CLUDIANT AM DDIM I'R YSGOL**  
Yn sgil gweithredu'r prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 3 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch unigolyn penodol. Yr oedd y prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol oedd yn ymwneud â'r ymgeisydd. Byddai datgelu'r wybodaeth yn ategu tryloywder ac atebolrwydd o ran y broses o wneud penderfyniad, ond ar ôl cloriannu'r mater, yr oedd y budd i'r cyhoedd o ran cadw cyfrinachedd yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth, gan fod angen sicrhau na fyddai modd adnabod yr ymgeisydd na'i deulu.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried sylwadau ysgrifenedig yr apelydd mewn perthynas â phenderfyniad Panel Adolygu Cam 1 i wrthod cludiant am ddim i S.C. a C.C. i'r ysgol gan nad yr ysgol honno oedd yr un agosaf nac ychwaith ysgol ddynodedig yr

Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer cyfeiriad y cartref, ac nad oedd felly'n cydymffurfio â'r meini prawf ym mholisi'r Cyngor ar gyfer rhoi cymorth.

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i sylwadau'r swyddogion adrannol, ynghyd ag amgylchiadau unigol yr achos.

**PENDERFYNWYD**, yn unol â Pholisi'r Awdurdod ar gyfer Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol, wrthod yr apêl oherwydd nad oedd S.C. na C.C. yn mynychu'r ysgol agosaf na'r un ddynodedig gan yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer y cyfeiriad cartref, a hynny oherwydd dewis y rhieni.

---

**CADEIRYDD**

---

**DYDDIAD**